Garddio gan Anni Llŷn
Gardening

1. Roedd anifeiliaid Byd Cyw wedi bod yn garddio.

2. Roedden nhw wedi plannu hadau fisoedd yn ôl a nawr roedd pob math o flodau wedi tyfu yn yr ardd.

3. Roedd Cyw wedi penderfynu plannu rhywbeth arall hefyd. Roedd hi wedi plannu letys.

4. Un bore, wrth i bawb ganmol y blodau prydferth, sylwodd Cyw fod y letys yn rhacs! Roedd y letys yn llawn tyllau bach, a'r dail wedi cael eu bwyta.

5. "Mae rhywun wedi bod yn bwyta fy letys yn y nos!" meddai Cyw.

6. Penderfynodd pawb gymryd tro i aros allan yn yr ardd drwy'r nos er mwyn dal pwy bynnag oedd yn bwyta letys Cyw.

7. Y noson gyntaf, roedd Bolgi a Llew yn yr ardd. Roedd ganddyn nhw tortsh ond roedden nhw dal ychydig yn ofnus. Cawson nhw fraw wrth glywed Gwen y Gwdihŵ yn tw-hwtian.

8. Ar yr ail noson, arhosodd Plwmp a Deryn allan yn yr ardd. Ond roedden nhw mor brysur yn syllu ar y sêr disglair, anghofion nhw am y letys.

9. Ar y drydedd noson arhosodd Jangl, Triog a Cyw gyda'i gilydd. Ond roedden nhw wedi blino'n lân, ac aeth y tri i gysgu.

10. Pan ddeffrodd Cyw yn y bore gwelodd lindys bach yn cropian ar hyd y letys ac yn bwyta llond ei bol! "O, lindys bach!" meddai Cyw gan ei godi, cyn iddo fwyta'r letys i gyd.

11. Penderfynodd y criw greu patsyn arbennig o ddail a blodau yn yr ardd, ac ychydig o letys i'r lindys, ond mewn rhai wythnosau doedd dim sôn am y lindys bach.

12. Ond gwelodd Cyw bili-pala hardd yn hedfan yn hapus o gwmpas y lle! Dyna amser arbennig yw'r gwanwyn, meddyliodd.

1. The animals of Cyw's World had been gardening.

2. They had planted seeds months ago, and now all sorts of flowers had grown in the garden.

3. Cyw had decided to plant something else too — she had planted lettuce.

4. One morning, while everyone was admiring the beautiful flowers, Cyw noticed that the lettuce was in tatters! The lettuce was full of little holes, and the leaves had been eaten.

5. "Someone has been eating my lettuce at night!" said Cyw.

6. Everyone decided to take turns staying out in the garden overnight to catch whoever was eating Cyw's lettuce.

7. On the first night, Bolgi and Llew were in the garden. They had a torch, but they were still a little afraid. They got a fright when they heard Gwen the Owl hooting.

8. On the second night, Plwmp and Deryn stayed outside in the garden. But they were so busy staring at the bright stars, they forgot all about the lettuce.

9. On the third night, Jangl, Triog, and Cyw stayed together. But they were exhausted, and the three of them fell asleep.

10. When Cyw woke up in the morning, she saw a little caterpillar crawling along the lettuce and eating to its hearts'content! "Oh, little caterpillar!" said Cyw, picking it up before it ate all the lettuce.

11. The crew decided to make a special patch of leaves and flowers in the garden, and a bit of lettuce for the caterpillar. But after a few weeks, there was no sign of the little caterpillar.

12. Then Cyw saw a beautiful butterfly flying happily around the place! "What a special time spring is," thought Cyw.